***Oddi wrth / From:*** **Parch./xxxx**
**Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer**

P 25

Ymchwiliad i'r Adolygiad Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Inquiry into the Priorities for the Health, Social Care and Sport Committee

Ymateb gan: Cytûn

Response from: Cytûn

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378
gethin@cytun.cymru | www.cytun.org.uk

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

***Oddi wrth / From:*** **Parch./xxxx**
**Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer**

Seneddlechyd@cynulliad.cymru

1 Medi 2016

**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

1. Ysgrifennir yr ymateb hwn ar ran Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn dilyn ymgynghoriad gyda'n haelodau. Ceir rhestr lawn o'n haelodau yma: http://www.cytun.org.uk/ni.html Mae ein haelod fudiadau yn cynnwys rhyw 172,000 o aelodau unigol ar draws Cymru, ynghyd â miloedd yn rhagor sy'n cefnogi eglwys leol neu un o'r mudiadau Cristnogol eraill mewn gwahanol ffyrdd.

2. Rydym yn gyffredinol gefnogol i awgrymiadau cychwynnol y Pwyllgor am ei raglen waith ar gyfer 2016-21, yn enwedig yr ymchwiliad i unigrwydd ymysg pobl hŷn.

3. Yn ychwanegol, hoffem awgrymu cynnal yn ystod y tymor hwn ymchwiliad i **ofal dementia** yn y cartref ac mewn lleoliadau preswyl, a ffyrdd o asio darpariaeth anffurfiol gan eglwysi a sefydliadau cymunedol eraill â darpariaeth statudol. Rydym fel eglwysi yn darparu cryn dipyn o ofal atodol anffurfiol i bobl sydd yn byw gyda dementia, ac yn sgîl hynny fe fuom yn cyfrannu at waith Cyngor Gofal Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer gweithwyr yn y maes, a rydym yn croesawu'r gwaith a gynhyrchwyd ganddynt. Mae gofal ysbrydol yn bwysig yn y cyd-destun hwn, yn ogystal â gofal corfforol a meddyliol, a chroesawn y gydnabyddiaeth o hynny yn y canllawiau. Credwn y byddai'n fuddiol, ar ôl dwy flynedd o weithredu'r canllawiau hyn, cynnal ymchwiliad ffurfiol i sut y maent yn gweithio a pha welliannau y gellir eu cynnig.

4. Ar hyd yr un llinellau, hoffem awgrymu yn ystod y tymor ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 ar **ofalwyr di-dâl yn y gymuned**. Mynegwyd peth gofid am sut y byddai'r criteria cymhwysedd newydd yn effeithio ar ofalwyr a chredwn y dylid ymchwilio i hyn ar ôl rhyw ddwy flynedd o weithredu'r drefn newydd.

5. Rydym yn croesawu'r bwriad i ymchwilio i **ddibyniaeth ar hap-chwarae**. Fe fydd gan ein haelod-fudiad, Y Stafell Fyw, gyfraniad pwysig i'w wneud i'r ymchwiliad hwn yn sgîl ei waith dan yr enw Curo'r Bwci - http://www.livingroom-cardiff.com/beattheodds/beattheodds.html

6. Rydym yn ymwybodol o faes gwaith eang a phwysig eich Pwyllgor, ac y bydd blaenoriaethu ymhlith yr holl bynciau pwysig a ddaw i'ch sylw yn anodd. Dymunwn

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378
gethin@cytun.cymru | www.cytun.org.uk
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

yn dda i chi yn eich gwaith ac edrychwn ymlaen at allu eich cynorthwyo, ac at elwa o ffrwyth eich llafur.

xxxx
Swyddog Polisi

Gellir cyhoeddi'r ymateb hwn yn gyflawn.

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378
gethin@cytun.cymru | www.cytun.org.uk

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071

Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071